# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE, DYDD GWENER, 8 GORFFENNAF 2016, AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| P Downing | V M Evans | P Lloyd |
| K E Marsh | H M Morris | C L Philpott |
| T H Rees | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| L Anthony | Swyddog Trwyddedu Adrannol |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| L Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| G White | Cyfreithiwr (Arsylwi) |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

### 24 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r côd ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 25 COFNODION:

**PENDERFYNWYD** y dylid cytuno bod cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol Arbennig a gynhaliwyd ar 27 Mai, 2016, y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol Arbennig a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 2016 a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2016, yn gofnodion cywir.

### 26 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 27 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - MGRL.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag MGRL.

Amlinellodd MGRL y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais MGRL am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat gyda llythyr cynghori ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

## 28 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - PJCT.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â PJCT.

Amlinellodd PJCT y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais PJCT am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat. Rhaid i PJCT hefyd gael archwiliad meddygol bob 6 mis gan ei feddyg teulu, yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA, a chael archwiliad meddygol bob tri mis gan nyrs y meddyg teulu o ran y cyflwr meddygol. Dylid darparu adroddiadau'r holl archwiliadau meddygol i'r Is-adran Trwyddedu o fewn 5 niwrnod o'u cyflwyno.

## 29 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - SH.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag SH.

Amlinellodd SH y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais SH am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat **gyda llythyr cynghori** ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.

## 30 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - SMC.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag SMC.

Amlinellodd SMC, ar y cyd ag aelod o'r teulu, NC, y manylion a'r amgylchiadau cefndir a oedd yn ymwneud â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Yna siaradodd NC i gefnogi SMC.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** cais SMC am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

**Torrodd y cyfarfod am 11.25am ac ailgynnull am 11.30am.**

## 31 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982 - ATODLEN 4 - GS.

Manylodd y Swyddog Trwyddedu Adrannol, Safonau Masnach, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â GS. Cadarnhaodd y byddai llinell olaf paragraff 4.1 yn cael ei dileu ac y byddai aelodau'n ystyried y cais ar y sail honno.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Amlinellodd GS y manylion a'r amgylchiadau cefndir a nodwyd yn yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO** Caniatâd Masnachu ar y Stryd GS gyda llythyr cynghori.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.56 am

**CADEIRYDD**